

CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod, Nos Iau, 29 Hydref 2015 yng Nghanolfan Edward Richard
Minutes of Meeting held, Thursday 29 October 2015 at Edward Richard Centre

Yn bresennol / Present: Wyn Evans, Tomos Jones, David M Jones, Dafydd Jones, a Rhodri Davies.

Ymddiheurio / Apologies: Thomas Jones, Geraint Jones a Siarl Owen.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 24 Medi 2015 fel rhai cywir.

Minutes of meeting 24 September 2015 were received as a correct record.

Materion yn codi / Matters arising

Doedd dim materion yn codi / There were no matters arising.

Gohebaieth / Correspondence

1. Maes Chwarae: Cytunwyd gofyn i Iwan Arch i dorri'r coed i gyd nôl yn y Maes Chwarae ac i James Butler i ddelio efo'r cyfarpar o ran gosod "cuplings" newydd ar y siglen. Cytunodd Tomos Jones i drefnu y gwaith angenrheidiol. *Playing Field: It was agreed to ask Iwan Arch to cut back the trees at the Playing Field and to ask James Butler to place new cuplings on the swings. Tomos Jones agreed to arrange the necessary work.*
2. Cytunwyd i dalu £70 i Owain Jones am dorri gwair y Maes Chwarae. *It was agreed to pay Owain Jones £70 for cutting the grass at the Playing Field.*
3. Derbyniwyd llythyr oddi wth Teulu'r Malaws, Y Felin, yn diolch am ein rhodd o £100 tuag at golau'r goeden nadolig i bentref Tynygraig. *A thank you letter was received from the Malaws Family, Y Felin thanking us for a donation of £100 towards the christmas tree lights for Tynygraig village.*
4. Biniau Grit: Cadarnhawyd bod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y Clerc a Ian Williams o'r Cyngor Sir parthed biniau grit o fewn y gymuned. Cadarnhawyd y byddai Lon Gelli yn derbyn un efo'r Cyngor Sir yn syth, ac yn cael ei gosod ar restr aros y Cyngor Sir roedd bin i Rhiw Penlan, Swyddffynnon a Ffos. Cytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn prynu bin i Sgwar Swyddffynnon a Cwm Nêl, Gwnnws. *Grit Bins: The Clerk confirmed that she had met with Ian Wililams from the County Council to discuss grit bins within the community. It was confirmed that the County Council would place a Grit Bin at Lon Gelli immediately and that bins would be put on the County Councils reserve list for a bin each to Penlan and Ffos Swyddffynnon. It was agreed that the Community Council would purchase a bin for Swyddffynnon Square and Cwm Nêl, Gwnnws.*
5. Ysgol Henry Richard School: derbyniwyd gwahoddiad i'r Eisteddfod 22 Hydref 2015 / *An invitation was received to the School Eisteddfod, 22 October 2015.*
6. CSC Cais Cynllunio A140808 apêl Broncapel, Swyddffynnon, YStrad Meurig (No. 5 Occupancy Conditions) – dylid cyflwyno unrhyw sylw i'r Arolygwyr Cynllunio, Parc Cathays erbyn 18 Tachwedd 2015. Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Dafydd Jones, Tomos Jones a David M Jones.

Planning Application A140808 appeal, Broncapel, Swyddffynnon, Ystrad Meurig (No. 5 Occupancy Conditions) – any comments should be sent to the Planning Inspectorate, Cathays Park by 18 November 2015. Declaration of interest was show by Councilors, Dafydd Jones, Tomos Jones and David M. Jones.

7. CSC Pwyllgor Rheoli Datblygu 14 Hydref 2015 – debryniwyd agenda a phapurau'r pwyllgor. *CCC Development Control Committee – agenda and papers for the meeting 14 October were received.*
8. CSC Diwrnod Ailgylchu Eitemau Trydanol B ychain – cytunodd y Clerc i wneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir am y posibilrwydd o gynnal diwrnod yn Ystrad Meurig. *CCC Recycling Day for Small Electrical Items – Clerk agreed to make enquiries with the County Council with the possibility of arranging a day in Ystrad Meurig.*
9. GIG Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am Sgwrs Iach – Let's Talk Health, Neuadd Goffa Tregaron, 30 Tachwedd 2015. *NHS Wales – information was received with regards to Sgwrs Iach – Let's Talk Health at Tregaron Memorial Hall, 30 November 2015.*
10. Archwiliad BDO Audit: cadarnhwyd yr archwiliad yn orffenedig. Cytunwyd i dalu'r ffi o £95. *The audit was concluded. It was agreed to pay the fee of £95.*
11. Swyddfa Archwilio Cymru: Swyddfa Archwilio Cymru fydd yn gyfrifol am archwiliad 2015-2016, 2016-17 a 2018-19. *Wales Audit Office will be responsible for the 2015-2016, 2016-17 a 2018-19 audit.*
12. Sul y Cofio – cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofgolofn am 1.15 pryhawn Sul 8fed Tachwedd 2015. *Remembrance Sunday service will be held at the monument, 1.15 Sunday afternoon, 8th November 2015.*
13. Gwasanaeth Carolau Nadolig – cytunwyd i gynnal y gwasanaeth yn Capel M.C. Swyddffynnon, cytunodd y Clerc i neud ymholiadau pellach. *Christmas Carol Service – it was agreed to hold the service at Swyddffynnon M.C. Chapel, Clerk agreed to do further enquiries.*
14. Cinio Blynnyddol – Clwb Rygbi Tregaron, Nos Wener, 4ydd Rhagfyr 2015 – Clerc i gylchreded y fwydlen yn agosach at yr amser. *Annual Dinner – Tregaron Rugby Club, Friday, 4th December 2015 – Clerk to circulate menu nearer the time.*